OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2645 (Cy.226)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*3 Hydref 2006*
Yn dod i rym - -	*9 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 160A(3) a 172(4) o Ddeddf Tai 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 9 Hydref 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Tai 1996; ac

ystyr "y Rheolau Mewnfudo" ("*the Immigration Rules*") yw'r rheolau a osodwyd fel a grybwyllir yn adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**3**) (Darpariaethau cyffredinol ar gyfer rheoleiddio a rheoli).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r dosbarthau o berson a ragnodir o dan adran 160A(3) ac sy'n bersonau cymwys

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (Dosbarthiadau a ragnodwyd o dan adran 160A(3) ac sy'n bersonau cymwys)—

(a) ar ddiwedd paragraff (d)(ii), ar ôl "1961", hepgorer "." a rhodder yn ei le ";"; a

(b) ar ôl paragraff (d), mewnosoder—

"(e) Dosbarth D1 —"person sydd o dan ofal dyngarol a roddwyd o dan y Rheolau Mewnfudo."

(**1**) 1996 p. 52.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) 1971 p.77.
(**4**) O.S. 2003/239 (Cy. 36).